# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2025

Amser: 08.57 - 09.03

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2025**

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad COVID-19 y DU: Adroddiad Modiwl 2 (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru - Cynaliadwyedd a Chyfranogiad (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Gwella Amseroedd Aros (45 munud) - gohiriwyd

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.55pm.

**Dydd Mercher 26 Tachwedd 2025**

Nododd y Pwyllgor Busnes y newid a ganlyn

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 15 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

Gofynnodd Heledd Fychan a Paul Davies pryd y byddai'r Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Wella Amseroedd Aros yn cael ei aildrefnu. Esboniodd y Trefnydd fod y datganiad wedi'i ohirio oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd data a nododd y byddai'n cael ei ail-drefnu ar gyfer dechrau mis Ionawr 2026.

Cwestiynodd Heledd Fychan a oedd y 45 munud a neilltuwyd i'r Datganiad gan y Prif Weinidog ar Ymchwiliad Covid-19 y DU: Adroddiad Modiwl 2 yn ddigonol o ystyried y lefel debygol o ddiddordeb gan Aelodau. Nododd y Llywydd y bydd yn ystyried caniatáu i'r eitem fynd heibio i'r amserlen er mwyn sicrhau y gellir galw digon o Aelodau.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2025**

- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: 10 mlynedd ers cyflwyno'r cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau (45 munud)~~ – bydd yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Gofynnodd Heledd Fychan pam na fyddai'r Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar roi organau yn ddatganiad llafar, o ystyried pwysigrwydd y mater. Nododd y Trefnydd fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi nodi nad oedd yn ystyried bod digon o sylwedd i warantu datganiad llafar, gan nodi hefyd hyd y

trafodion a drefnwyd ar gyfer 2 Rhagfyr sy'n cynnwys Cyfnod 3 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod y pwynt a godwyd gyda’r Ysgrifennydd Cabinet.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu’r eitemau canlynol ar amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 17 Rhagfyr 2025**

- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: John Griffiths AS (Dwyrain Casnewydd) (30 munud)

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn cael ei drafod ddydd Mercher 17 Rhagfyr, yn syth ar ôl y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn gwneud cais am slot cyfarfod amgen ar gyfer y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gofyn am slot cyfarfod arall ar gyfer yr wythnos hon a bod hyn wedi'i gytuno y tu allan i'r pwyllgor yr wythnos diwethaf oherwydd natur frys y cais.